# Yr ymchwil defnyddwyr diweddaraf

## Traciwr defnyddwyr twristiaeth wythnosol Croeso Cymru gyda BVA BDRC

Mae Croeso Cymru yn gweithio gyda VisitBritain a VisitScotland i ymestyn yr arolwg BVA BDRC presennol i ganolbwyntio ar y galw am wyliau yn y tymor byr-canolig.

Mae adroddiadau'n cael eu cyhoeddi bob wythnos ar wefan VisitBritain yma. Mae adroddiadau sy'n canolbwyntio ar Gymru yn cael eu cyhoeddi bob 4 wythnos ar wefan Llywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys data am drigolion Cymru a thrigolion y DU sy'n bwriadu ymweld â Chymru.

**Wythnos 10 (20-24 Gorffennaf) canfyddiadau ar lefel y DU:**

Isel yw'r disgwyliadau y bydd pethau'n mynd yn ôl i'r arfer, gyda lleiafrif (27%) yn disgwyl i bethau fynd yn ôl i'r arfer erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth iddynt gyflawni eu gweithgareddau bob dydd ond mae pobl yn dal yn fwy gofalus ynghylch bwyta mewn bwyty a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

At ei gilydd, mae mwy o bobl yn meddwl y byddant yn cymryd llai o wyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng nawr a diwedd y flwyddyn. Mae cyfran uwch (44%) nawr yn disgwyl cymryd llai o deithiau tramor eleni.

Mae 14% o oedolion y DU yn cadarnhau eu bod wedi bod ar drip ers mis Gorffennaf, sy'n cyfateb i oddeutu 8 miliwn o wyliau oedolion.

Mae oddeutu un o bob deg sy'n bwriadu cymryd gwyliau yn ystod yr haf neu'r gaeaf yn bwriadu ymweld â Chymru. De Orllewin Lloegr oedd yr ardal fwyaf poblogaidd.

Carafanau a gwersylla yw'r mathau o lety sy'n cael eu ffafrio ar gyfer gwyliau haf domestig, wedi'u dilyn gan lety hunanddarpar.

**Wythnosau 5-8 (15 Mehefin – 10 Gorffennaf) Trigolion Cymru a Bwriadwyr Cymru (adroddiad llawn).**

Y prif newidiadau wrth gymharu ag Wythnosau 1-4:

- Mae pobl yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus wrth wneud gweithgareddau hamdden 'bob dydd', yn enwedig 'siopa yn eich canolfan siopa leol'.
- Mae trigolion Cymru a'r DU yn fwy hyderus ynghylch mynd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU ym mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi nag oeddent yn wythnosau 1 i 4.
- Pryderon ynghylch dal COVID-19 a chyfleoedd i fwyta/yfed allan yw'r prif resymau dros ddiffyg hyder bellach o ran cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU ymysg trigolion y DU, sy'n disodli 'cyfyngiadau'r llywodraeth'.
- Mae trigolion y DU yn dal yn debygol o gymryd llai o wyliau neu wyliau byr yn y DU o'i gymharu ag arfer, ond i raddau llai nag yn wythnosau 1 i 4.
- Mae archebion gwyliau ymysg bwriadwyr wedi cynyddu'n sylweddol, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi archebu eto.

## Arolwg Llywodraeth Cymru o safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch y coronafeirws (crynodeb 10-13 Gorffennaf)

- Mae'r canfyddiadau ynghylch bygythiadau'r coronafeirws yn sefydlog ar ôl rhywfaint o ostyngiad yn flaenorol. Mae'n dal i gael ei weld fel bygythiad mwy i'r wlad nag i unigolion. Mae'r mwyafrif yng Nghymru yn dal i ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol. Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn dal i feddwl y bydd pandemig y coronafeirws yn cael effaith ariannol bersonol arnynt.

## BVA BDRC: Tracio Barn Defnyddwyr am Effaith COVID-19 Sampl o ddefnyddwyr ym Mhrydain

### Adroddiad Wythnos 17 (23 Gorffennaf)

Roedd mwy o bobl yn 'debygol o brynu' ar ôl y cyhoeddiad i dorri TAW i 5% i atyniadau i dwristiaid ac i fusnesau lletygarwch

Mae'r bwriad i archebu gwesty wedi aros yn sefydlog, gyda 38% yn bwriadu gwneud hynny erbyn diwedd y flwyddyn. Mae 1 o bob 3 nad ydynt yn bwriadu aros mewn gwesty yn ystod y 6 mis nesaf yn dweud nad ydynt yn meddwl ei bod hi'n ddiogel aros mewn gwesty eto.

### Adroddiad Wythnos 18 (29 Gorffennaf)

Mae nifer yn dal i boeni y bydd cynnydd pellach yn y feirws gyda dros wyth o bob deg (81%) yn meddwl ei fod yn debygol iawn / gweddol debygol.

Mae'r awyr agored yn dal i ddenu'r mwyafrif helaeth o amser hamdden defnyddwyr, roedd dros ddau o bob pump (43%) wedi ymweld â pharc awyr agored neu ardal hardd ers i hynny gael ei ganiatáu.

Mae hyn yn cymharu â 13% o bobl sydd wedi bod mewn atyniad i ymwelwyr ers i hynny gael ei ganiatáu.

Mae ychydig o dan un o bob pump (18%) wedi bod mewn bwyty ac mae chwarter (25%) wedi bod mewn canolfan siopa.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru: Arolwg Ymgysylltiad Cyhoeddus ar Iechyd a Llesiant (Adroddiad Wythnos 14: 6 – 12 Gorffennaf)

- Sampl gynrychioladol o boblogaeth Cymru i archwilio iechyd a llesiant.

*Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 29-07-2020

Cymru Wales

# Yr Ymchwil Diwydiant / Rhanbarthol diweddaraf

**Lletygarwch: Astudiaeth o effaith 2m yn hytrach nag 1m gan Gynghrair Twristiaeth yr Alban (16-21 Mehefin)** Ar sail arolygon gyda busnesau yn yr Alban. STA : n=315 gwesty / grŵp gwestai, a n=394 bwyty / caffi, arolwg ASVA (n=210 atyniad), arolwg SBPA (n=318 tafarn), arolwg Wild Scotland gyda n=52 gweithredwr anturiaethau yn yr awyr agored.

- Dywedodd 85% o fwytai ac 83% o westai y byddai eu busnes yn anghynaliadwy'n ariannol petai'n rhaid masnachu gyda phawb yn cadw 2m oddi wrth ei gilydd heb unrhyw gymorth ychwanegol ar ôl y 2 fis nesaf.
- Roedd tua 13% o'r tafarndai a holwyd yn credu ei bod hi'n ymarferol yn ariannol iddynt fasnachu gan ddilyn y rheolau cadw pellter o 2 fetr. Roedd 82% yn credu ei bod yn ymarferol masnachu gan gadw pellter o 1m.
- Dywedodd 66% o fusnesau antur awyr agored nad oedd cadw pellter o 2m yn gynaliadwy ar gyfer eu busnes am fwy na 2 fis a heb unrhyw gymorth ychwanegol.

**Y Diwydiant Awyrennau: Mae rhagolygon IATA ar gyfer y diwydiant awyrennau 2020-2021 (adroddiad 9 Mehefin)** yn mapio'r galw am deithiau awyr / amcan o'r adferiad, effaith ariannol, cymorth gan y llywodraeth.

**Y Celfyddydau a Chreadigol: Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol.** Adroddiad Effaith Economaidd Ragamcanol COVID-19 ar Ddiwydiannau Creadigol y DU (17 Mehefin) gan Oxford Economics

- Mae'n amcangyfrif y gellid colli 1 swydd greadigol o bob 5 yn 2020.

**Atyniadau - Defnyddwyr: Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Hamdden (ALVA): Traciwr Adferiad Atyniadau** Ton 4: 8-11 Gorffennaf, n=716

- Mae'r bwriad i ymweld ag atyniad cyn gynted ag sy'n bosibl yn uchel, er nad yw hyn wedi newid ers Ton 3. Dywed hanner y rheini sy'n ymweld ag atyniadau y byddant yn gwneud hyn neu eu bod eisoes wedi gwneud hyn. Y rheini sy'n ymweld ag atyniadau amlaf sy'n bwriadu ymweld fwyaf.
- Mae'n ymddangos bod lefel o ofal o hyd ynghylch ymweld ag atyniadau dan do, a phryder ynghylch defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd atyniadau i ymwelwyr.
- Mae pryder o hyd ynghylch ymwelwyr eraill, gyda 24% yn sôn am gadw pellter cymdeithasol yng nghyd-destun ymweld ag atyniadau heb iddynt gael eu holi am y peth. Mae hyn wedi gostwng ychydig o 28% yn nhon 9-12 Mehefin.

**Atyniadau - Diwydiant: Atyniadau Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru (WAVA)** 17 – 26 Mai, (sampl= 50 o atyniadau i dwristiaid yng Nghymru)

- Byddai bron i 4 atyniad o bob 5 yn gallu agor gyda 2 wythnos o rybudd. Mae dwy ran o dair yn credu y byddant yn gallu cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae bron i 9 o bob 10 yn meddwl y byddant yn cael agor erbyn mis Medi 2020.
- Dywedodd bron i 7 o bob 10 petaent yn cael caniatâd i weithredu ar hyd at 50% o'u capasiti, y byddent yn dewis agor, a byddai 3 o bob 10 yn aros ar gau.

**Cymunedau lleol: Centre for Towns: Adroddiad Effaith pandemig COVID-19 ar ein trefi a'n dinasoedd**

- Mae cau sectorau oherwydd COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur ar drefi bach a chanolig eu maint (llety, manwerthu heb fod yn fwyd, tafarndai/ bwytai a'r celfyddydau a hamdden), yn yr un modd â threfi arfordirol.
- Ar gyfartaledd, mae dros chwarter y bobl a gyflogir mewn trefi arfordirol yng Nghymru a Lloegr yn gweithio mewn sectorau nad ydynt yn gallu masnachu oherwydd y cyfyngiadau symud.
- Mae nifer o drefi arfordirol a chyn-ddiwydiannol dan anfantais ychwanegol, gan eu bod eisoes yn wynebu anawsterau economaidd sy'n golygu ei bod hi'n anoddach ymdopi ag effeithiau COVID-19.

**Busnesau Rhanbarthol: Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd – Arolwg Effaith Twristiaeth COVID-19** 90 o ymatebion i arolwg ar-lein 24 Ebrill – 22 Mai, a ddosbarthwyd i aelodau Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd, drwy gyfryngau cymdeithasol a busnesau lleol eraill ar draws Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

- Dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau mai colli llif arian oedd yr effaith fwyaf. Dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau nad oedd eu hyswiriant yn talu am golledion a oedd yn gysylltiedig â COVID.
- Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr llety a gweithgareddau eu bod wedi gweld 'eu llif arian yn lleihau'n sylweddol neu'n diflannu'n llwyr'. "Ailadeiladu sylfaen ddibynadwy o gleientiaid" oedd y pryder tymor hir a nodwyd amlaf – a grybwyllwyd gan bron i chwarter o'r ymatebwyr. Roedd gan y rhan fwyaf archebion o hyd ar gyfer diwedd yr haf / hydref.

**Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 29-07-2020*

Cymru Wales

# Adnoddau gwybodaeth economaidd

## Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn diweddaru adnoddau data amrywiol yn rheolaidd:

**Crynodeb Coronafeirws (COVID-19) dyddiol**

- Crynodeb o'r data am y coronafeirws a'r dadansoddiadau y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu gwneud. Mae'n cael ei ddiweddaru'n ddyddiol ac yn cynnwys dolenni at bob cyhoeddiad neu ffynhonnell ddata.

**Coronafeirws a'r effeithiau economaidd ar y DU**

- Ar sail arolwg gwirfoddol newydd bob pythefnos, sy'n edrych ar effaith COVID-19 ar fusnesau

**Amcangyfrif misol o'r cynnyrch domestig gros, DU**

- Amcangyfrifon o'r cynnyrch domestig gros ar gyfer y DU

**Coronafeirws a'r dangosyddion diweddaraf ar gyfer economi a chymdeithas y DU**

- Data arbrofol gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i gynhyrchu dangosyddion cyflym

**Coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar Brydain**

- Defnyddio'r Arolwg Barn a Ffordd o Fyw i ddadansoddi effeithiau COVID-19 ar bobl, ar aelwydydd ac ar gymunedau.

**Gwerthiannau manwerthu**

- Amcangyfrifon o werthiannau manwerthu, gyda'r niferoedd sy'n cael eu prynu a'r symiau sy'n cael eu gwario ar gategorïau gwahanol ar gyfer manwerthu ac ar-lein.

**Chwyddiant prisiau defnyddwyr, DU**

- Mynegeion prisiau ar gyfer y gwahanol fesurau chwyddiant prisiau defnyddwyr.

**Adolygiad o'r farchnad lafur**

- Amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd

## Adnoddau eraill:

- Mae'r Resolution Foundation yn cyhoeddi adroddiadau'n rheolaidd sy'n edrych ar effaith y coronafeirws ar economi'r DU:
  - **Effeithiau'r coronafeirws ar weithwyr (adroddiad 16 Mai)**
  - **Diweddariad Economaidd Haf Gorffennaf 2020 dadansoddiad o aros dros nos (adroddiad 9 Gorffennaf)**
  - **Archwiliad Safonau Byw 2020 (adroddiad 21 Gorffennaf)**
  - **Amser gyda'r plant: Sut mae'r ffordd mae rhieni'n treulio eu hamser wedi newid yn ystod y pandemig (adroddiad 13 Gorffennaf)**

**Cafodd y ddogfen gryno hon ei diweddaru ddiwethaf ar 29-07-2020*

Cymru Wales